

“Beth sydd y tu ôl i’r Wal?”

Diwrnod Agored y Gwanwyn ym Mharc Bute Dydd Sadwrn 30 Mawrth 2019

Mae 70 o flynyddoedd wedi bod ers i’r parc agor i’r cyhoedd yng ngwanwyn 1949 (ar ôl cael ei roddi i’r ddinas yn 1947). Ymunwch â ni wrth i ni ddathlu “Beth sydd y tu ôl i’r Wal?”

Cynhelir ystod o ddigwyddiadau yng Nghanolfan Addysg Parc Bute ac o’i chwmpas, gan gynnwys sgysiau, teithiau a dosbarthiadau gan staff Parc Bute, yr Ardd Salad a Chaffi’r Ardd Gudd ymhlith eraill.

Gallwch weld rhagor o wybodaeth ac archebu tocynnau am ddim ar gyfer sgysiau drwy <https://www.eventbrite.co.uk/o/bute-park-15541788264>

Sgysiau’r Diwrnod Agored

Amser	Siaradwr	Teitl	Gwybodaeth
10.30 – 11.15	Rosie James	Andrew Pettigrew – hanes Garddwr Fictoraidd	<p>Mae Rosie James, Prif Swyddog y Dirwedd yn adrodd hanes Andrew Pettigrew o’i ddechrau yn Ayrshire yn yr Alban i ddod yn Brif Arddwr yng Nghastell Caerdydd.</p> <p>Dysgwch am ei gyflawniadau garddwriaethol – cynnal y blanhigfa yn y castell, lluosogi planhigion, tyfu gwin, trin ffrwythau caled a mwy.</p>
11.15 – 12.00	Sophie Durnan	Gardd Salad Caerdydd	<p>Roedd yr Ardd â Wal yn cael ei defnyddio’n wreiddiol i dyfu ffrwythau a llysiau i’r teulu Bute ar ddechrau’r 1900au.</p> <p>Yn 2017 daeth Gardd Salad Caerdydd â’r gwaith o dyfu llysiau yn ôl i un o dai gwydr yr ardd â wal. Mae hyn yn fusnes gwirioneddol leol sy’n gweithio gyda gwirfoddolwr er iechyd meddwl positif a gwerthu salad i fwytai lleol a’i ddanfôn ar feic.</p> <p>Bydd y tyfwr a’r sylfaenydd Sophie yn siarad am y fenter gymdeithasol, sut mae hi’n tyfu mwy na 500 kg o salad ac i ble mae’n mynd.</p> <p>www.cardiffsaladgarden.co.uk</p>

Amser	Siaradwr	Teitl	Gwybodaeth
12.00 – 12.45		Seremoni Swyddogol Torri'r Rhuban	<p>Ganol dydd, bydd y Maer ac Arweinydd y Cyngor yn ymuno â ni i blannu coeden goffaol a dadorchuddio'n swyddogol gerflun newydd i nodi pen-blwydd Parc Bute yn 70 oed.</p> <p>Bydd yr Arglwydd Faer yn torri'r rhuban i ddathlu pen-blwydd cyntaf Siop Blanhigion Parc Bute ac mae Caffi'r Ardd Gudd yn dathlu ei phen-blwydd cyntaf hefyd.</p> <p>Bydd ein cyfeillion yn Ystafelloedd Te Pettigrew yn comisiynu cacen pen-blwydd arbennig gan eu bod nhw hefyd yn dathlu eu pen-blwydd yn 7 oed ar 30 Mawrth.</p>
13.00 – 13.45	Kevin Thomas	Gwanwyn yn yr Ardd	<p>Mae aelod profiadol a gwybodus y tîm Planhigfeydd Parc Bute, y garddwr Kevin, yn siarad am ei gariad at Ardd y Gwanwyn.</p> <p>O goetiroedd i erddi iard ffurfiol, mae Kevin yn siarad am yr amrywiaeth o blanhigion, coed a llwyni sydd ar eu gorau yn ystod misoedd y Gwanwyn.</p>
14.00 – 14.45	Melissa Boothman	Coginio gyda'r Tymhorau	<p>Ryseitiai o'r Ardd. Trafod y tymhorau, yr hyn sy'n tyfu yn eich gardd a ryseitiai i chi fynd â nhw adref.</p> <p>Bydd Melissa o Gaffi'r Ardd Gudd a Penylan Pantry yn siarad trwy 4 rysâit, 1 o bob tymor, gyda chynnyrch o'ch gardd. Bydd arddangosiad hefyd a chewch fynd â'r ryseitiai wedi'u hargraffu â chi.</p> <p>Penylan Pantry, Cheese Pantry a Chaffi'r Ardd Gudd. www.penylanpantry.com @secretgardencf</p>

Amser	Siaradwr	Teitl	Gwybodaeth
15.00 – 15.30	Meriel Jones	Gwenyn Mêl Parc Bute	<p>Arferai cychod gwenyn ym Mharc Bute ddarparu mêl i'r teulu cyfoethog Bute a'i westeion yng Nghastell Caerdydd.</p> <p>Fwy na 60 o flynyddoedd yn ôl, ar lawnt y berllan, roedd llawer o gychod dan y coed afalau i helpu gyda pheillio.</p> <p>Yn 2016 daeth Meriel Jones yn wenywnwr a dechreuodd gadw gwenyn unwaith eto ym Mharc Bute.</p> <p>Bydd Meriel yn esbonio sut mae gwenyn wedi dychwelyd i Barc Bute a'r stori hyd yn hyn.</p> <p>www.parc-bute.com</p>
15.30 – 16:00	Stephen Peckham	Eartha	<p>Mae Eartha yn siop blanhigion dros dro sy'n arbenigo mewn planhigion dan do a chrochenwaith ac mae'n masnachu'n llwyddiannus ers bron blwyddyn erbyn hyn.</p> <p>Ar hyn o bryd mae'r siop dros dro wedi'i lleoli yn y bwyty llysieuol, Milgi, ar Heol y Plwca, lle y mae'r lle yn edrych yn fwy fel jyngl trofannol bob dydd.</p> <p>Bydd Stephen yn trafod ei daith gyda'r busnes anuniongred, ei amcanion i'r dyfodol a sut mae wedi bod yn gallu ymgysylltu â mentrau creadigol lleol a phlanhigfeydd Parc Bute er mwyn stocio'r siop.</p> <p>Hefyd bydd Stephen yn dod â rhai o'i hoff blanhigion egsotig y gellir eu prynu yn Eartha.</p> <p>@earthastore</p>

Teithiau Cerdded a Sgyrsiau

Amser	Siaradwr	Teitl	Gwybodaeth
10.00 – 10.30	Chay Sanders	Taith o'r Blanhigfa	<p>Taith y tu ôl i'r llenni o Blanhigfeydd Parc Bute gyda Goruchwylydd y Blanhigfa, Chay.</p> <p>Dyma gyfle unigryw i weld ein tai gwydr rhagorol a dysgu am y planhigion a dyfir ar gyfer y bocsys planhigion, basgedi crog ac ymylon ym mhob rhan o'r ddinas.</p> <p>Hefyd byddwn yn mynd i ardd salad ysbrydoledig Caerdydd, cwrdd â'r person deallus sy'n gyfrifol am y 'Trailblazer Wagon' sy'n creu ynni a bwerir gan yr haul ar gyfer gweithrediadau a digwyddiadau yn y parc.</p> <p>Bydd y daith yn dechrau ac yn gorffen yn Siop Planhigion Parc Bute.</p>
11.15 – 11.45	Alex Sibley	Border y Ganolfan Addysg	<p>Dewch i gwrdd â Garddwr Parc Bute Alex a dysgu mwy am gynllun plannu border blodau'r Ganolfan Addysg. Ewch i Ardd Struttgart a dysgu am ei tharddiad.</p>
12.30 – 13.00	Chris Wood	Cwrdd â'r Cerflunydd	<p>Mae Parc Bute wedi comisiynu cerflun newydd i ddathlu pen-blwydd Parc Bute yn 70 oed. Bydd yr ychwanegiad newydd arbennig hwn i'r parc yn ei le ar gyfer y digwyddiad dathlu a bydd gennych gyfle i 'Gwrdd â'r Cerflunydd' a siarad ag ef am ei waith newydd ym Mharc Bute a'i gerfluniau eraill ym Mharciau Caerdydd.</p> <p>Efallai eich bod wedi gweld Y Wenynen y tu allan i Dŷ Gwydr Parc y Rhath neu'r Dyn Gwyrdd yn Fferm y Fforest.</p> <p>www.woodartworks.co.uk/</p>

13.30 – 15.00	Malcolm Fraser	Taith trwy'r Coed	<p>Taith trwy'r coed wedi'i harwain gan Malcolm Frazer, Swyddog Coed Cyngor Caerdydd sydd wedi ymddeol</p> <p>Ar y daith ddiddorol hon byddwn yn edrych ar lawer o goed prin ac anarferol yn ogystal â'r casgliad o Goed Campus y mae Parc Bute yn enwog amdanynt. Bydd y daith yn para am oddeutu 1.5 awr a bydd ar hyd y prif dramwyfeydd ac ar draws lawntiau'r parc.</p>
------------------	-----------------------	--------------------------	--

Gweithdai'r Siop Planhigion

Amser	Siaradwr	Teitl	Gwybodaeth
Trwy'r dydd	Planhigfeydd Parc Bute	Bocsys Planhigion Dydd Sul y Mamau	<p>Plannwch eich Rhodd Dydd Sul y Mamau eich hun – hambwrdd o friallu'r gerddi lliwgar, dewiswch eich lliwiau eich hun i sicrhau ei fod yn bersonol!</p> <p>Talwch am eich soser wrth y man talu a'i llenwi â blodau gyda chymorth Staff Planhigfeydd Parc Bute.</p> <p>Dim ond £6 yr un neu 2 am £10</p>
14.30 – 15.30	Kevin Thomas	Arddangosiad Lluosogi Planhigion	<p>Gyda mwy na 30 o flynyddoedd o brofiad o blanhigfeydd, mae Kevin Thomas o Blanhigfa Parc Bute yn arddangos ystod o dechnegau lluosogi ar gyfer planhigion dan do ac awyr agored.</p> <p>Dysgwch fwy am hau hadau ar gyfer planhigion llysiâu a'r haf, y ffordd wahanol o gymryd toriadau a rhai o'r ffyrdd mwy anarferol eraill y mae planhigion tŷ yn cael eu lluosogi.</p>

Nodwch

- Bydd nifer gyfyngedig o leoedd ym mhob sesiwn.
- Bydd tocynnau o flaen llaw ar gael trwy Eventbrite (ar gyfer digwyddiadau unigol).
- Bydd rhai o leoedd heb docynnau ar gael ar gyfer pob sesiwn ar y diwrnod.
- Os nad ydych yn gallu dod i ddigwyddiadau rydych wedi cadw lle ar eu cyfer bellach, cysylltwch â ni fel y gellir rhyddhau eich tocynnau i bobl eraill eu defnyddio.